# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 27 Medi 2017

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4645

# 90(v3)

## Cofnod y Trafodion

Gweld Cofnod y Trafodion

## Datganiad y Dirprwy Lywydd

Croesawodd y Dirprwy Lywydd Lefarydd a Chlerc Cynulliad Deddfwriaethol New Brunswick, Canada, oedd yn ymweld â'r Cynulliad.

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd y 9 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

Dechreuodd yr eitem am 14.22

Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau.

## 3 Cwestiynau Amserol

Dechreuodd yr eitem am 14.22

**Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith**

Andrew RT Davies (Canol De Cymru): Yn sgil penderfyniad Transport for London i ddirymu trwydded gweithredwr hurio preifat Uber, a wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu safbwynt Llywodraeth Cymru ar bresenoldeb y cwmni yng Nghymru?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

Dechreuodd yr eitem am 14.25

Gwnaeth Mike Hedges ddatganiad i longyfarch y Tabernacl, Treforys, am gael ei enwi yn gapel neu eglwys mwyaf poblogaidd Cymru.

Gwnaeth Russell George ddatganiad i nodi 750 mlynedd ers arwyddo Cytundeb Sir Drefaldwyn, arwyddwyd ar 29 Medi 1267.

Gwnaeth Vikki Howells ddatganiad ar agor siop newydd Co-op yn Nghwmbach, lle agorwyd y siop Co-op gynaliadwy gyntaf yn 1860.

## 5 Cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 26 mewn perthynas â Biliau Pwyllgorau

Dechreuodd yr eitem am 14.30

**NDM6512** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Busnes 'Diwygio Rheolau Sefydlog: Rheol Sefydlog 26 - Biliau Pwyllgor' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Medi 2017.

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i adolygu Rheol Sefydlog 26, fel y nodir yn Atodiad B i Adroddiad y Pwyllgor Busnes.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 6 Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog 11, 12 a 13 mewn perthynas â Deddf Cymru 2017 ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Dechreuodd yr eitem am 14.31

**NDM6511** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Busnes 'Diwygio Rheolau Sefydlog: Rheolau Sefydlog 11, 12 a 13 - Deddf Cymru 2017 ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Medi 2017.

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i adolygu Rheolau Sefydlog 11, 12 a 13, fel y nodir yn Atodiad B i Adroddiad y Pwyllgor Busnes.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 7 Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad 01-17 i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 22.9

Dechreuodd yr eitem am 14.31

**NDM6508** Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd)

Yn cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

a) yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad - Adroddiad 01-17 - a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 3 Awst 2017 yn unol â Rheol Sefydlog 22.9; ac

b) yn cymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 8 Dadl ar adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau: Ar y trywydd iawn? Masnachfraint y Rheilffyrdd a Metro De Cymru

Dechreuodd yr eitem am 14.34

**NDM6510** Russell George (Sir Drefaldwyn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Nodi adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar ei Ymchwiliad i'r Fasnachfraint Rheilffyrdd a Metro De Cymru a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Mehefin 2017.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 9 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar ei ymchwiliad i ddyfodol polisi rhanbarthol – beth nesaf i Gymru?

Dechreuodd yr eitem am 15.35

**NDM6514** David Rees (Aberafan)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar ei 'Ymchwiliad i ddyfodol polisi rhanbarthol – beth nesaf i Gymru?' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Mehefin 2017.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 10 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

Dechreuodd yr eitem am 16.13

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM6513** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru, 'Ffyniant i bawb'.

2. Yn gresynu at y diffyg manylion yn y ddogfen a'r diffyg targedau penodol ar gyfer y Llywodraeth o dan arweiniad Llafur yn ystod y pumed Cynulliad.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i amlinellu targedau penodol a mesuradwy iddi eu cyflawni erbyn 2021 sy'n ymwneud â'r economi, y system addysg a'r gwasanaeth iechyd.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 17 | 0 | 38 | 55 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Dileu pwyntiau 2 a 3 a rhoi yn eu lle:

2. Yn nodi bod y strategaeth genedlaethol newydd yn ategu'r addewidion uchelgeisiol a nodwyd eisoes yn Symud Cymru Ymlaen, gan gynnwys sefydlu Cronfa Triniaethau Newydd a chynyddu gwariant ar safonau ysgolion.

3. Yn cydnabod bod angen i'r llywodraeth a phob partner cyflenwi yng Nghymru weithio'n well, ac ar draws strwythurau presennol, i ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl yn wyneb agenda parhaus o doriadau niweidiol gan Lywodraeth y DU.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 29 | 0 | 26 | 55 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gan fod gwelliant 1 wedi'i dderbyn, cafodd gwelliannau 2 a 3 eu dad-ddethol.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

1. Yn nodi strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru, 'Ffyniant i bawb'.

2. Yn nodi bod y strategaeth genedlaethol newydd yn ategu'r addewidion uchelgeisiol a nodwyd eisoes yn Symud Cymru Ymlaen, gan gynnwys sefydlu Cronfa Triniaethau Newydd a chynyddu gwariant ar safonau ysgolion.

3. Yn cydnabod bod angen i'r llywodraeth a phob partner cyflenwi yng Nghymru weithio'n well, ac ar draws strwythurau presennol, i ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl yn wyneb agenda parhaus o doriadau niweidiol gan Lywodraeth y DU.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 29 | 10 | 16 | 55 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

## 11 Cyfnod Pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 17.07

## Crynodeb o Bleidleisiau

## 12 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 17.09

**NDM6515** Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Dŵr ffo o'r mynydd ac ar ein ffyrdd - a all Cymru atal problem gorlifo sydyn?

Daeth y cyfarfod i ben am 17.26

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 3 Hydref 2017**